Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 29.03.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cwricwlwm i Gymru:**<br>**Canllawiau ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| At ei gilydd, mae'r canllawiau drafft yn cyflwyno egwyddorion defnyddiol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm i ddisgyblion mewn UCDau a lleoliadau eraill addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi nodi ble y gellid cryfhau'r canllawiau, yn cynnwys:<br>• manylion pellach ar gyfer dylunio, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu dau leoliad<br>• eglurhad am y corff sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm, monitro a deilliannau dysgwyr lle mae disgybl yn mynychu dau leoliad<br>• gwybodaeth ychwanegol am rolau a chyfrifoldebau ar gyfer monitro ansawdd y darpariaethau<br>• pwysigrwydd cydweithio prydlon a chyson ag ystod o wasanaethau partner i gefnogi anghenion dysgwyr yn llawn<br>• darparu enghreifftiau o gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol o gynigion i gyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr neu becynnau cymorth teilwredig ar gyfer dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar draws UCDau a lleoliadau AHY eraill |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 –** Ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i (iii) isod)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (cynradd) | | Sefydliad addysg uwch | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (uwchradd) | | Awdurdodau esgobaethol | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (arbennig) | | Consortia rhanbarthol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (cynradd) | | Awdurdod lleol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (uwchradd) | | Darparwr hyfforddiant preifat | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (arbennig) | | Trydydd sector | |
| Ysgol ddwyieithog (cynradd) | | Llywodraeth | |
| Ysgol ddwyieithog (uwchradd) | | Dysgu Oedolion yn y Gymuned | |
| Ysgol ganol cyfrwng Cymraeg | | Sefydliad dyfarnu | |
| Ysgol ganol cyfrwng Saesneg | | Undeb athrawon | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uned cyfeirio disgyblion (UCD) | | Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth) | Estyn |
| Ysgol arbennig | | Corff llywodraethol / pwyllgor rheoli | |
| Lleoliad nas cynhelir a ariennir | | Arall (nodwch): | |
| Coleg addysg bellach | | | |

ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | | Canghellor / is-ganghellor | |
| Athro | | Darlithydd | |
| Ymarferwr | | Arloeswr | |
| Athro newydd gymhwyso | | Llywodraethwr / aelod o'r pwyllgor rheoli | |
| Cynorthwyydd addysgu | | Ymgynghorydd her | |
| Uwch arweinydd | | Swyddog gwella ysgolion | |
| Athro cyflenwi | | Arolygydd | ✓ |
| Pennaeth / Is-bennaeth | | Arall (nodwch): | |

iii) Os nad ydych chi'n gweithio ym maes cyflwyno addysg, neu'n ei gefnogi, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | | Cyflogwr | |
| Oedolyn dros 18 oed (nid rhiant na gofalwr) | | Prentis | |
| Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | | Arall (nodwch): | |
| Myfyriwr / academydd | | | |

iv) Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

v) Os 'ydw', nodwch

| Estyn |
| --- |
| |

**Cwestiwn 2 –** A oes perthynas glir rhwng canllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru ar AHY a'r canllawiau cyhoeddedig ar y Cwricwlwm i Gymru?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |

**Esboniwch eich ateb**

Ceir perthynas glir rhwng canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer AHY a'r canllawiau cyhoeddedig ar y Cwricwlwm i Gymru. Caiff nodau trosfwaol canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru eu disgrifio'n briodol o fewn y canllawiau drafft i gefnogi arweinwyr ar draws ystod o leoliadau AHY.

Bydd canllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer AHY yn cael eu cryfhau, yn ogystal â'r enghreifftiau disgwyliedig a grybwyllir yng nghyflwyniad y ddogfen canllawiau.

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu UCDau a darparwyr AHY eraill wrth gynllunio, dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |

**Esboniwch eich ateb**

Caiff cyfeiriad addas ei gynnwys yn y canllawiau drafft ar y materion sy'n wynebu arweinwyr UCDau a darpariaethau AHY eraill ar gyfer cynllunio, dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, mae'r canllawiau yn cyfeirio'n ddefnyddiol at y bobl ifanc fwyaf bregus sy'n debygol o fod yn mynychu darpariaeth o'r fath, ac yn pwysleisio'r angen am hyblygrwydd i oresgyn y rhwystrau y gallai'r dysgwyr eu hwynebu rhag cymryd rhan yn llawn mewn addysg.

Gellid cryfhau'r canllawiau trwy gynnwys rhagor o fanylion ar gyfer dylunio, cynllunio a chyflwyno'r cynnig cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n mynychu dau leoliad. Mae angen eglurder ynglŷn â'r corff sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm, monitro a deilliannau dysgwyr lle mae disgybl yn mynychu dau leoliad. Er enghraifft, gallai hyn fod rhwng UCD ac ysgol prif ffrwd neu ddarpariaeth AHY sy'n cynnwys darparwr allanol wedi'i gomisiynu. Mae'r dull asesu a dilyniant yn cyfeirio at sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol, gan gydnabod cryfderau a chyflawniadau. Caiff meysydd i'w gwella a rhwystrau rhag dysgu eu nodi'n addas, felly hefyd ystyried anghenion unigol y dysgwr. Fodd bynnag, ar dudalen 6, nid yw'n glir beth mae'r cyfeiriad at ddylunio cwricwlwm 'cadarn' yn ei olygu. Hefyd, nid oes digon o fanylion am drefniadau monitro ac adrodd ar gyfer y cynnig cwricwlwm.

Mae'r canllawiau'n cydnabod bod angen datblygu a hyrwyddo dull meithringar a chydweithio systematig gydag ystod o randdeiliaid. Yn yr adran **egwyddorion**

| |
|---|
| **allweddol, paragraff 4,** 'yn aml, mae angen cydweithio â gwasanaethau partner hefyd…', gellid ystyried cryfhau'r ffordd y mae'r datganiad hwn wedi'i eirio i atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithio prydlon a chyson â'r ystod o wasanaethau partner sy'n angenrheidiol i gefnogi anghenion pob dysgwr yn llawn. |

**Cwestiwn 4** - A yw'r canllawiau hyn yn cefnogi ac yn helpu â chynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgwyr mewn UCDau a lleoliadau AHY eraill?

| Ydyn, ond mae angen eu cryfhau | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb**

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn cyflwyno egwyddorion allweddol cadarnhaol i weithredu'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion mewn UCDau a darpariaeth AHY. Rydym o'r farn fod yna rai meysydd lle gellid cryfhau'r canllawiau:<br><br>**Ym mharagraff 2 'cydweithio systematig',** gellid ystyried newid 'yn aml, mae angen' i 'rhaid'. Byddai hyn yn cryfhau dull cyson o gefnogi anghenion dysgwyr. Bydd y dull hwn yn caniatáu ar gyfer profiad cwricwlwm cynlluniedig yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddofn o anghenion pob dysgwr o safbwyntiau pob darparwr gwasanaeth. Hefyd, byddai'n cryfhau lefel yr ymrwymiad sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr.<br><br>**Ym mharagraff 3 'cydweithio systematig'**, cydnabyddir rolau rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys rôl y consortia addysgol rhanbarthol. Yn y Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu, Chwefror 2020, nodir rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid, ac mae hyn yn cynnwys y consortia rhanbarthol hefyd. Byddai dolenni at y ddogfen hon yn fuddiol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae rôl a chyfrifoldebau consortia o ran sut maent yn gweithio i gefnogi UCDau a darparwyr AHY yn anghyson ar draws rhanbarthau. I gyflawni'r disgwyliadau a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu, Llywodraeth Cymru, mae angen rhagor o fanylion ar gynlluniau i gyflawni hyn ar draws y sector hwn. At ddiben y canllawiau hyn, byddai'n ddefnyddiol cael enghreifftiau gan gonsortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol o gynigion i gyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr neu becynnau teilwredig i gefnogi dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar draws UCDau a lleoliadau AHY eraill.<br><br>Mae **paragraff 3 'cydweithio systematig**' yn cyfeirio at 'fonitro ansawdd y ddarpariaeth', a byddai'n fuddiol egluro gan bwy. Nid yw'r agwedd hon ar weithredu proses gynllunio ar gyfer y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol ac mae angen ei chryfhau i gefnogi UCDau a lleoliadau AHY yn llawn i werthuso a gwella darpariaeth, yn ogystal â bod yn atebol. |

**Cwestiwn 5** – Pa agweddau ar y canllawiau hyn sy'n hynod fuddiol, yn eich barn chi?

| |
|---|
| Mae'r canllawiau drafft yn darparu ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer arweinwyr lleoliadau AHY, gyda dolenni perthnasol at ddogfennau allweddol. |

**Cwestiwn 6** – A oes yna agweddau ar y canllawiau hyn y gellid eu gwella, yn eich barn chi?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Nodwch beth a sut**

**'Beth yw AHY' paragraff 2**. Er mai hwn yw'r diffiniad mewn deddfwriaeth, byddai'n fuddiol cydnabod amgylchiadau lle gallai lleoliad tymor hwy fod yn briodol, er enghraifft lle mae lleoliad AHY yn darparu cyrsiau galwedigaethol yn dilyn llwybr cymwysterau. Gallai lleoliadau o'r fath fod dros gyfnod amser cynaledig i alluogi'r dysgwr i ennill y deilliannau cymhwyster. Byddem yn awgrymu y dylid diwygio'r geiriad i ddweud 'Mae AHY wedi'i dylunio ar gyfer lleoliadau tymor byr i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i addysg prif ffrwd a / neu eu galluogi i wneud cynnydd tuag at addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith'.

**Deddfwriaeth bresennol**

Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn glir nad yw'n berthnasol i ysgolion sy'n ariannu ac yn comisiynu darpariaeth y tu allan i'w lleoliad. Fodd bynnag, gallai rhai agweddau ar y canllawiau hyn fod yn fuddiol o ran cefnogi ysgolion â'u cynllunio, a sicrhau ansawdd darpariaeth allanol. Byddai'n fuddiol ystyried p'un a yw canllawiau cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru i gefnogi ysgolion prif ffrwd sy'n comisiynu darpariaeth allanol yn ddigon cryf, a ph'un a ellid cyfeirio atynt yn y canllawiau hyn ar AHY.

**Cynllunio cwricwlwm ac asesu**

Gellid cryfhau'r adran hon i ddarparu mwy o fanylion ar drefniadau i sicrhau dilyniant i ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n mynychu dau leoliad. Yn yr un modd, byddai'n fuddiol cael mwy o fanylion am brosesau sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol.

Ni sonnir am brosesau monitro ansawdd ar gyfer rhannu lleoliadau, a phwy sydd â chyfrifoldeb am y prosesau hyn, er enghraifft p'un ai'r awdurdod lleol, yr ysgolion prif ffrwd neu'r lleoliadau UCD/AHY yw hwn. Byddai rhagor o fanylion yn cryfhau dull cyson o fewn, ac ar draws, awdurdodau lleol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

**Egwyddorion Allweddol – Meithrin lles**

Gallai fod yn fuddiol cryfhau'r adran hon, yn enwedig yn sgil y sefyllfa bresennol o ran COVID-19. Er enghraifft, gallai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau o ystod o ddulliau therapiwtig y gallai fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr ystyried eu cyflwyno yn eu lleoliadau. Mae'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn ategu ymgysylltiad effeithiol dysgwyr â dysgu.

**Cydweithio systematig - Paragraff 2**

Dylid ystyried cryfhau geiriad y frawddeg hon i ofyn am gydweithio ag ystod o ddarparwyr gwasanaeth i gefnogi ystod amrywiol anghenion y dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth AHY. Byddai hyn yn pwysleisio rolau a chyfrifoldebau pwysig darparwyr gwasanaeth allanol mewn cefnogi anghenion y dysgwyr hyn.

**Mynediad at gwricwlwm cynhwysol**

Mae hyn yn datgan 'Mae dyletswydd i adolygu cwricwla'n barhaus.' Byddai'n fuddiol egluro pwy sydd angen cynnal yr adolygiad hwn, pa mor aml ac o dan ba amgylchiadau penodol. Yn benodol, gallai fod yn fuddiol cynnwys enghreifftiau neu fwy o fanylion i esbonio'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn ar draws ystod y gwahanol fecanweithiau ar gyfer

trefnu neu gomisiynu darpariaeth AHY i gefnogi dulliau mwy cyson ar draws awdurdodau lleol.

**Cyffredinol**

At ei gilydd, ni sonnir rhyw lawer am ymgysylltiad dysgwyr â'r cynnig cwricwlwm. Gallai hyn fod ymhlyg yn y cynnwys ond mae'n faes pwysig i'w ystyried wrth sicrhau mynediad effeithiol at y cwricwlwm ar gyfer yr holl ddysgwyr.

**Cwestiwn 7 –** A oes yna unrhyw wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y canllawiau hyn, yn eich barn chi?

| **Oes** | ✓ | **Nac oes** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

## Nodwch

Byddai'n fuddiol cynnwys:

- Canllawiau i gefnogi cysondeb gwell â threfniadau comisiynu ar draws awdurdodau lleol i sicrhau hawl gyfartal i ddysgwyr o ran y cwricwlwm. Cydnabyddir yr agwedd hon yn Adolygiad Llywodraeth Cymru o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (2020).
- Canllawiau ychwanegol ar sut i sicrhau ansawdd y cynnig cwricwlwm
- Gwybodaeth ychwanegol am sut y dylid adolygu'r cwricwlwm yn barhaus, ac ar rolau a chyfrifoldebau penodol pob darparwr
- Rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r cwricwlwm ar gyfer y cynnig cwricwlwm lle mae dysgwyr yn mynychu dau leoliad

**Cwestiwn 8 –** A oes gennych chi unrhyw bwyntiau pellach i'w gwneud yn benodol mewn perthynas â chanllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer AHY?

| **Oes** | ✓ | **Nac oes** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

## Nodwch

Byddai'n fuddiol ychwanegu dolenni at y cyhoeddiadau hyn gan Lywodraeth Cymru -

Canllawiau Gwella Ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Canllawiau drafft, Ionawr 2021. 210126- canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-atebolrwydd.pdf (llyw.cymru)

Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol adran 201111 yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol - Hwb (llyw.cymru)

**Cwestiwn 9 –** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer AHY yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Rhoddir pwyslais addas ar yr angen i barhau i roi mynediad i ddysgwr at ddarpariaeth AHY cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 10 –** Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid canllawiau arfaethedig y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer AHY, er mwyn:

i) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) peidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Er bod y canllawiau yn nodi'r angen i sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer parhad a dilyniant ieithyddol i ddysgwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, nid yw'n ehangu ar sut dylai awdurdodau lleol, UCDau a lleoliadau AHY eraill wneud hyn.

**Cwestiwn 11 –** Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Byddai'n fuddiol i'r canllawiau ystyried y naw argymhelliad o Adolygiad Llywodraeth Cymru o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (2020). Adolygiad o drefniadau comisiynu awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol | LLYW.CYMRU

Mae'r canllawiau'n nodi ysgolion annibynnol fel darparwyr AHY posibl.  O'r herwydd, mae'n gosod disgwyliadau ar yr hyn y dylai awdurdodau lleol ei ddisgwyl o ran comisiynu'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.  Fodd bynnag, byddai'n fuddiol pe bai modd adolygu Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) a chanllawiau atodol.  Er enghraifft, byddai hyn yn caniatáu'r gofyniad i ddarparu dysgu sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu tuag at ymgorffori'r pedwar diben yn y Safonau Ysgolion Annibynnol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐